

GWEITHDREFN

Teitl:	Dyled (na Ellir ei Rheoli)	
Maes Arfer / Busnes:	Safonau Proffesiynol	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Safonau Proffesiynol	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	27/01/10	
Adolygwyd Ddiwethaf:	19/10/19	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Hydref 2020	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif Fersiwn:	05	Prif Gwnstabl

AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:

Atal unigolion rhag ceisio mynd i'r afael â phroblemau dyled drwy ddulliau llygredig, anghyfreithlon neu anfoesegol ac atal unigolion rhag dioddef straen a'r problemau iechyd dieisiau sy'n gysylltiedig â chynnal dyled na ellir ei rheoli.

CANLLAWIAU:

Mae pob agwedd ar y broses o roi gwybod am ddyled na ellir ei rheoli yn orfodol, felly cyfeiriwch at y Weithdrefn.

Dylid ystyried y canlynol os bydd un o gyflogeion Heddlu De Cymru yn rhoi gwybod am ddyled na ellir ei rheoli.

Fetio

Yn dibynnu ar natur rôl yr unigolyn, efallai y bydd angen adolygu statws fetio unigolyn ar ôl iddo ddatgelu dyled na ellir ei rheoli. Gall rolau o'r fath gynnwys rhai lle mae'r cyflogai yn agored i niwed h.y. ymwneud â hysbyswyr, agweddau ariannol.

O dan yr amgylchiadau hyn gall asesiad risg gael ei gynnal rhwng yr Uned Fetio, yr Adrannau Safonau Proffesiynol a'r Adran Adnoddau Dynol, er mwyn asesu addasrwydd unigolyn i barhau yn ei rôl, gyda chynllun rheoli dyled.

Os ystyrir nad yw'r unigolyn yn briodol mwyach i barhau yn ei rôl benodol, dylai Comander yr Uned Reoli Sylfaenol neu Bennaeth yr Adran geisio nodi rôl sy'n briodol. Os na fydd unrhyw rolau o'r fath ar gael o fewn yr Uned Reoli Sylfaenol na'r Adran, dylid helpu'r unigolyn i nodi rôl addas mewn maes neu adran arall mewn ymgynghoriad â'r Ditectif Uwcharolygydd, yr Uned Reoli Sylfaenol a Phartner Buses Adnoddau Dynol.

Efallai na fydd unigolion â dyled na ellir ei rheoli yn bodloni gofynion fetio a allai eu rhoi o dan anfantais wrth ymgeisio am rolau sy'n gofyn am lefel uwch o fetio. Gall unigolyn geisio adennill statws fetio uwch ar ôl i broblem ei ddyled na ellir ei rheoli gael ei datrys.

Buddiannau Busnes

Os bydd gan unigolyn fuddiant busnes cymeradwy neu gofrestr o fuddiannau pan ddatgelir y ddyled na ellir ei rheoli, adolygir ei fuddiannau busnes neu ei gofrestr o fuddiannau gan Bartner Busnes Adnoddau Dynol drwy reolwr llinell yr unigolyn a Chomander yr Uned Reoli Sylfaenol/Pennaeth yr Adran.

Diben yr adolygiad yw sicrhau nad yw dyled yr unigolyn na ellir ei rheoli yn gwrthdaro â rôl yr unigolyn.

Caiff unigolion eu hysbysu am ganlyniad yr adolygiad gan Bartner Busnes Adnoddau Dynol drwy Gymorth Busnes.

ASESIAD RISG CYFFREDINOL:

Nid oes angen asesiad risg lechyd a Diogelwch.

GWEITHDREFN:

Hysbysu

Lle mae aelod o Heddlu De Cymru'n gyfrifol am lefel o ddyled na ellir ei rheoli neu mae'n debygol na ellir ei rheoli, mae'n ofynnol iddo wneud y canlynol:-

1. Datgelu ei amgylchiadau drwy siarad â rheolwr llinell priodol. Mae'n rhaid i drafodaeth gychwynnol gynnwys manylion penodol am y ddyled ac mae'n rhaid cadarnhau hyn yn ysgrifenedig wedyn drwy adroddiad neu e-bost, gan amlinellu manylion y canlynol yn glir:-

- ei rôl,
- lefel y ddyled,
- dyddiadau perthnasol ac
- unrhyw achos llys sydd yn yr arfaeth.

Mae'n rhaid i unigolion ddatgelu os ydynt yn destun Dyfarniadau Llys Sirol, Cytundebau Gwirfoddol Unigol neu fethdaliad.

2. Ystyried ceisio cyngor ac arweiniad priodol

3. Ystyried y cyngor a gynhwysir yn Atodiad 'A'.

Mae gan aelodau Heddlu De Cymru rwymedigaeth i roi gwybod am sefyllfa dyled bersonol na ellir ei rheoli. Os bydd dyledion na ellir eu rheoli'n cael eu nodi nad yw unigolyn wedi'u datgelu, ystyrir achos disgyblu (staff heddlu) neu gamymddwyn (swyddog heddlu) yn unol â'r Gweithdrefnau Disgyblu neu Gamymddwyn. Cyfeiriwch at y canlynol:

Gweithdrefn Ymyrraeth Rheolwyr

Polisi Disgyblu - Staff yr Heddlu

Camymddygiad yr Heddlu 2008 - Ymchwiliadau Camymddwyn a Chwynion yr Heddlu

Safonau Ymddygiad Proffesiynol Swyddogion yr Heddlu

Ymateb Rheoli

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n cael datgeliad i ddechrau sicrhau bod y Rheolwr Llinell, y Rheolwr AD, Comander yr Uned Reoli Sylfaenol/Pennaeth Adran (Tîm Uwch-reolwyr) a Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol yn ymwybodol o ddatgeliad yr unigolyn. Hefyd, mae'n rhaid iddo roi gwybod i'r gweithiwr, i ddechrau, i bwy'n union mae dyletswydd arno i roi gwybod am hyn.

Mae'n rhaid i'r rheolwr derbyn roi copi o'r Arweiniad hwn a'r Weithdrefn i'r unigolyn a sicrhau ei fod yn ymgysylltu â'r gefnogaeth briodol. Mae'n rhaid i'r rheolwr llinell geisio'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd a chefnogi'r unigolyn.

Os nad yw eisoes wedi'i wneud, bydd rheolwr llinell yr unigolyn yn trefnu cwrdd â'r unigolyn dan sylw. Cyn y cyfarfod, dylai'r unigolyn lenwi'r holiadur ariannol isod a dod ag ef i'r cyfarfod.

Yn y cyfarfod, trafodir:

- Amgylchiadau ariannol yr unigolyn

- Natur y Rôl (gweler yr adran Fetio)
- Holiadur Ariannol
- Rhwydweithiau cefnogi perthnasol, h.y. asiantaeth dyledion achrededig (gweler y Llawlyfr Cefnogi Dyled na Ellir ei Rheoli), Uned Iechyd Galwedigaethol (OHU) (yn enwedig Gwasanaethau Cwnsela a Thrawma), Ffederasiwn yr Heddlu, Unsain neu GMB.
- Cynllun rheoli dyled (cyfeirio'r cymorth perthnasol er mwyn cwblhau'r cynllun).
- Buddiannau Busnes neu Gofrestr Buddiannau (gweler yr adran Buddiant Busnes).

Os yw rheolwr llinell yr unigolyn yn penderfynu bod angen cefnogaeth broffesiynol ar unigolyn, caiff fanylion am asiantaeth dyledion sydd wedi'i hachredu gan yr heddlu a rhoddir gwybod iddo y caiff ei holiadur ariannol ei anfon ymlaen at yr Adran Safonau Proffesiynol. O'r holiadur ariannol, os bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn tynnu sylw at ymddygiad troseddol honedig neu dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol, caiff y gweithdrefnau priodol eu hystyried, h.y. Disgyblu/Camymddwyn.

Bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn gweithio gydag unrhyw swyddog neu aelod o staff sy'n teimlo ei fod, neu y gallai fod, yn agored i lygredigaeth neu arferion anfoesegol a allai beryglu ei swydd neu'r heddlu. Bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn ystyried Gweithdrefn Ymyrraeth Rheolwyr (Cyfweiliad Moesegol) gyda'r bwriad o gefnogi'r aelod o staff a rheoli risg i'r unigolion a'r sefydliad.

Caiff pob achos ei asesu a'i drin ar ei rinweddau o ran a fu ymddygiad troseddol honedig neu dorri'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol. Lle bynnag y bo'n briodol, y man cychwynnol i'r Adran Safonau Proffesiynol fydd y gall dyled na ellir ei rheoli fod yn fater lles a dylid cefnogi personél Heddlu De Cymru wrth reoli'r ddyled honno.

Cyfeiriwch at Safonau Ymddygiad Proffesiynol Staff yr Heddlu.

Os bydd Pennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol yn penderfynu bod rôl yr unigolyn o natur sensitif, rhoddir gwybod i Uned Fetio'r Heddlu, PSD, am ddyled yr unigolyn na ellir ei rheoli. Disgwylir i unigolion ddatgelu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol gan Uned Fetio'r Heddlu.

Os bydd yr Adran Safonau Proffesiynol a/neu'r Uned Fetio yn penderfynu y bydd angen i'w Uned Reoli Sylfaenol roi cymorth ychwanegol i'r aelod o staff a'i fonitro, ni chaiff yr aelod o staff ei gynnwys ym Mhanel Ymyrraeth Gynnar yr Adran Safonau Proffesiynol/Uned Reoli Sylfaenol am fwy o amser nag sydd ei angen i reoli'r risg yn llwyr.

DEDDFWRIAETH A RHEOLEIDDIO:

Polisi Disgyblu - Staff yr Heddlu

[Camymddygiad yr Heddlu 2012 - Ymchwiliadau Camymddwyn a Chwynion yr Heddlu Safonau Ymddygiad Proffesiynol](#)